Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig

Chwefror 2024

senedd.cymru

# 1. Y cefndir

## Bil Cerbydau Awtomeiddiedig Llywodraeth y DU

**1.** Cyflwynwyd y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig[1] (y Bil) yn Nhŷ'r Arglwyddi a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 8 Tachwedd 2023. Noddir y Bil gan yr Adran Drafnidiaeth.

**2.** Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn rhoi'r trosolwg a ganlyn:

> *"The Automated Vehicles Bill implements the recommendations of the 4-year review of regulation for automated vehicles carried out jointly by the Law Commission of England and Wales and the Scottish Law Commission (the Law Commissions). It is intended to set the legal framework for the safe deployment of self-driving vehicles in Great Britain."*[2]

**3.** Mae teitl hir y Bil yn nodi pwrpas y Bil fel a ganlyn:

> *"Regulate the use of automated vehicles on roads and in other public places; and to make other provision in relation to vehicle automation."*

**4.** Ar yr adeg y cytunwyd ar ein hadroddiad, roedd trefniadau i'r Bil gael ei Drydydd darlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 19 Chwefror 2024.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**5.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu ei chymhwysedd deddfwriaethol.

**6.** Ar 24 Tachwedd 2023, gosododd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.[3]

---

[1] Bil Cerbydau Awtomeiddiedig, fel y'i cyflwynwyd (Bil 1)
[2] Bil Cerbydau Awtomeiddiedig, Nodiadau Esboniadol, Tachwedd 2023
[3] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y BIl Cerbydau Awtomeiddiedig, Tachwedd 2023

**7.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 1 Mawrth 2024.[4]

## Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

**8.** Asesiad Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y darpariaethau a ganlyn yn y Bil, fel y nodir ym mharagraffau 10 i 18 o'r Memorandwm:

- cymal 40 (Pŵer i fynnu adroddiadau gan yr heddlu ac awdurdodau lleol);
- cymal 82 (Pŵer i roi trwyddedau);
- cymal 83 (Datgymhwyso deddfwriaeth tacsi, cerbyd hurio preifat a bysiau);
- cymal 84 (Cosbau sifil am droseddau);
- cymal 85 (Gofyniad cydsyniad ar gyfer gwasanaethau sy'n debyg i dacsis neu gerbydau hurio preifat);
- cymal 87 (Gofynion pellach);
- cymal 88 (Casglu, rhannu a diogelu gwybodaeth);
- cymal 89 (Materion gweithdrefnol a gweinyddol);
- cymal 90 (Dehongli);
- cymal 97 (Rheoliadau); ac
- Atodlen 6 i'r Bil (Sancsiynau sifil am dorri cynllun trwyddedau teithwyr).

**9.** Mae Atodiad A i Nodiadau Esboniadol y Bil[5] yn manylu ar asesiad Llywodraeth y DU o'r rhychwant tiriogaethol a'r drefn o ran cymhwyso'r Bil yn y DU. Ei farn yw bod y broses cydsyniad deddfwriaethol yn cael ei defnyddio, mewn perthynas â Chymru, ar gyfer.

- cymal 40;

[4] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig, Tachwedd 2023
[5] Nodiadau Esboniadol, Atodiad A

- cymalau 82 i 90; ac
- Atodlen 6.

**10.** Felly, barn Llywodraeth y DU yw bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer cymal 86, ond nad oes ei angen ar gyfer cymal 97.

## Pwerau dirprwyedig

**11.** Rhoddir pwerau newydd i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru fel a ganlyn:

- Mae cymal 82 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru (fel yr awdurdod cenedlaethol priodol) roi trwydded i berson at ddiben darparu gwasanaeth teithwyr awtomeiddiedig. Rhoddir pŵer i Weinidogion Cymru roi trwydded yng Nghymru ar gyfer gwasanaeth teithwyr awtomeiddiedig sy'n debyg i dacsi neu gerbyd hurio preifat, ochr yn ochr â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth sy'n rhoi'r trwyddedau hyn yn Lloegr. Pan fo gwasanaeth teithwyr awtomeiddiedig yn debyg i gerbyd gwasanaeth cyhoeddus, mae deddfwriaeth bresennol yn y maes hwn yn fater a gadwyd yn ôl a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth fydd yn gyfrifol am roi trwyddedau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.
- Mae Atodlen 6 i'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru (fel y mae'r awdurdod cenedlaethol priodol ar gyfer tacsis a cherbydau hurio preifat yn caniatáu) gyhoeddi sancsiynau sifil mewn perthynas â'r trwyddedau hynny.
- Mae cymal 89 yn rhoi pwerau penodol i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru (fel yr awdurdod cenedlaethol priodol) mewn perthynas ag amrywio, adnewyddu, atal neu dynnu trwyddedau'n ôl.

**12.** Rhoddir pwerau newydd i ddeddfu hefyd i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae cymal 40 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau, lle gallai fod angen adroddiadau gan brif swyddog yr heddlu ac awdurdodau penodol sy'n cynnwys awdurdodau lleol yng Nghymru.

**13.** O ran dirprwyo pwerau yn y Bil, mae'r Gweinidog yn nodi:

> *"Mae cymal 97 yn darparu, cyn gwneud rheoliadau, fod rhaid i'r person sy'n eu gwneud ymgynghori â'r sefydliadau cynrychioliadol sy'n briodol yn nhyb y person hwnnw. Mae rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru i'w gwneud drwy*

*offeryn statudol; cânt wneud: darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliannol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed; darpariaeth wahanol at ddibenion neu feysydd gwahanol; a darpariaeth sy'n caniatáu arfer disgresiwn; ac maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol."*[6]

**14.** Mae cymal 93 o'r Bil yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod rheoleiddio traffig ddarparu gwybodaeth ragnodedig am fesur perthnasol i reoleiddio traffig. Nid yw cymal 93 yn gofyn am gydsyniad y Senedd ar hyn o bryd. Yn y Memorandwm, mae'r Gweinidog yn datgan:

*"Rydym yn ystyried a ellid gwneud gwelliannau i gymal 93, sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy reoliadau i wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod rheoleiddio traffig ddarparu gwybodaeth ragnodedig am fesur rheoleiddio traffig perthnasol yn Lloegr, i roi'r pŵer cyfatebol i Weinidogion Cymru o ran Cymru. Bwriad cymal 93 yw hwyluso argaeledd yr wybodaeth ddigidol y gallai cerbydau awtomeiddiedig ei defnyddio, neu, yn wir, gerbydau eraill sydd â swyddogaethau cymorth gyrwyr electronig, i gydymffurfio â'r rheolau a nodir mewn deddfwriaeth fel Gorchmynion Rheoleiddio Traffig. O ystyried y cysylltiadau rhwng systemau trafnidiaeth Cymru a Lloegr, credwn y byddai'n fanteisiol i wybodaeth o'r fath fod ar gael ar yr un pryd, a byddai pwerau i Weinidogion Cymru yng nghymal 93 yn ein galluogi i weithio'n effeithiol gyda Llywodraeth y DU yn hyn o beth."*[7]

## Safbwynt Llywodraeth Cymru, a'r rhesymau dros wneud darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil

**15.** Yn y Memorandwm, mae'r Gweinidog yn datgan:

*"Dim ond drwy ddeddfwriaeth sylfaenol y gellir gwneud y darpariaethau perthnasol yn y Bil. Rwyf wedi ystyried egwyddorion y Prif Weinidog ar gyfer argymell cydsyniad i ddarpariaethau ym miliau'r*

[6] Y Memorandwm, paragraff 20
[7] Y Memorandwm, paragraff 21

*DU ac rwyf o'r farn bod yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol yn yr achos hwn:*

*• Mae cynnig deddfwriaethol Llywodraeth y DU yn briodol ar gyfer amgylchiadau Cymru, gan fod Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i hwyluso defnyddio cerbydau sy'n gallu gyrru eu hunain mewn modd diogel ac effeithlon.*

*• Mae natur gydgysylltiedig y system drafnidiaeth yng Nghymru a Lloegr, a'r cyfuniad o faterion a gedwir yn ôl â'r materion datganoledig dan sylw, yn golygu mai'r opsiwn mwyaf effeithiol a phriodol yw i ddarpariaeth i'r ddau gael ei datblygu ar yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol. Am y rhesymau hyn, mae'n annhebygol y byddai gwneud darpariaeth drwy'r Bil tacsis a/neu'r Bil bysiau y bwriedir eu cyflwyno i'r Senedd yn foddhaol.*

*• Fel y nodwyd uchod, mae technoleg yn datblygu'n gyflym yn y maes hwn ac mae'n bwysig bod y fframwaith deddfwriaethol yn parhau i fod yn addas ac yn cyd-fynd yn llawn ledled y DU."*[8]

**16.** Daw'r Gweinidog i'r casgliad a ganlyn:

- ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau yn y Memorandwm, ac eithrio cymal 40 fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn y Bil hwn ar gyfer y DU.
- bydd yn rhoi diweddariad pellach i'r Senedd ar y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â chymalau 40 a 93 maes o law.[9]

## Adroddiadau gan bwyllgorau yn Senedd y DU

**17.** Ar 8 Rhagfyr 2023, cyhoeddodd Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi ei adroddiad ar y Bil.[10] Mewn perthynas â'r pŵer i wneud rheoliadau ym mharagraff 2(7) o Atodlen 6, nododd y Pwyllgor ei fod yn rhoi pŵer priodol i awdurdod cenedlaethol benderfynu, drwy reoliadau gweithdrefn negyddol, y symiau uchaf sy'n daladwy drwy gosbau ariannol sifil gan ddeiliad trwydded ar gyfer darparu gwasanaethau teithwyr awtomeiddiedig am

[8] Y Memorandwm, paragraff 23
[9] Y Memorandwm, paragraffau 25 a 26
[10] Tŷ'r Arglwyddi Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio, 3ydd Adroddiad Sesiwn 2023–24, cyhoeddwyd 8 Rhagfyr 2023

(a) torri cynllun y drwydded, neu (b) methu â chydymffurfio â hysbysiad cydymffurfio. Mae'r Pwyllgor yn datgan:

> *"The Memorandum cites two precedents for these powers: section 40A(3) of the Competition Act 1998 and section 111(4) and (6) of the Enterprise Act 2002. However, those powers are limited in a way that the powers in the Bill are not. They allow maximum amounts payable by way of civil penalties to be specified by negative procedure regulations but this is subject to an important limitation: the Acts that confer those powers both provide that any sum specified in the regulations cannot exceed ceiling amounts specified in the Acts themselves. The Memorandum does not mention this. No explanation is therefore provided for a key divergence from the two precedents to which the Memorandum itself refers.*
>
> *We consider that—*
>
> *• it is inappropriate for the maximum amounts payable by way of civil penalties to be left entirely to negative procedure regulations; and*
>
> *• in the absence of provision in the Bill setting ceiling amounts above which any amount specified in the regulations cannot go, the powers in clause 36(9) and paragraph 2(7) of Schedule 6 to set maximum monetary penalties are inappropriate and should be removed from the Bill."*[11]

**18.** Ar 31 Ionawr 2024, ysgrifennodd yr Arglwydd Davies o'r Gŵyr, Gweinidog Morwrol, Rhyngwladol a Diogelwch yr Adran Drafnidiaeth, at y Pwyllgor yn nodi:

> *"We have carefully considered the Committee's recommendations in this area and appreciate the concerns that were set out in the Committee's report. The Government agrees with the Committee's specific concern that it is inappropriate to leave the setting of maximum amounts payable by way of civil penalties in Clause 36 and Schedule 6 entirely to negative procedure regulations.*

[11] Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi, 3ydd Adroddiad Sesiwn 2023-24, paragraffau 20 a 21

> *The Government has tabled an amendment to apply the affirmative procedure to these clauses ahead of report stage on 6 February. We hope this provides reassurance to the Committee that this issue will receive the appropriate level of parliamentary scrutiny.”*[12]

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**19.** Gwnaethom drafod y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 29 Ionawr 2024[13], a gwnaethom gytuno ar ein hadroddiad ar 19 Chwefror 2024.[14]

## Ein barn ni

### Darpariaethau y mae angen cydsyniad deddfwriaethol ar eu cyfer

**20.** Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y nodir yn y Memorandwm.

**21.** Nodwn fod asesiad Llywodraeth y DU yn wahanol i asesiad Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chymalau 86 a 97.

**22.** Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru fod cymalau 40, 82, 83, 84, 85, 87, 88, 89, 90 and 97 y Bill, ac Atodlen 6 i'r Bil yn dod o fewn diben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y'u disgrifir yn Rheol Sefydlog 29.

**Casgliad 1.** Rydym o'r farn bod darpariaethau'r Bil fel y nodir yn y Memorandwm yn dod o fewn diben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y'u disgrifir yn Rheol Sefydlog 29, ac felly, mae angen cydsyniad y Senedd.

### Pwerau dirprwyedig

**23.** Nodwn fod cymalau 82 ac 89 o'r Bil, ac Atodlen 6 i'r Bil, yn cynnwys pwerau newydd i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau.

**24.** O ran y pŵer i wneud rheoliadau yn Atodlen 6, rydym yn cydnabod barn y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddiol, ynghylch y weithdrefn

---

[12] Ty'r Arglwyddi, Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddiol, 9fed Adroddiad Sesiwn 2023-24, cyhoeddwyd 2 Chwefror 2024
[13] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 29 Ionawr 2024
[14] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 19 Chwefror 2024

graffu sy'n gysylltiedig ag arfer y pŵer ac absenoldeb darpariaeth yn y Bil a fyddai'n gosod uchafswm ar gyfer cosbau ariannol sifil.

**Casgliad 2.** Rydym yn cefnogi barn Pwyllgor y Bil Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio mewn perthynas â'r pŵer i wneud rheoliadau ym mharagraff 2(7) o Atodlen 6 i'r Bil, ac yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno gwelliant i gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol i'r pŵer hwn.

**25.** O ran cymal 93 o'r Bil, nodwn ddatganiad y Gweinidog bod Llywodraeth Cymru yn ystyried a ellid gwneud gwelliannau i gymal 93 i roi pŵer i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru sy'n cyfateb i'r hyn a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr.

**26.** Nodwn esboniad y Gweinidog dros fynd i'r afael â'r gwelliannau hyn a'i barn y byddai pwerau i Weinidogion Cymru yng nghymal 93 yn galluogi Llywodraeth Cymru i weithio'n effeithiol gyda Llywodraeth y DU.

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Gweinidog roi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor hwn erbyn 14 Mawrth 2024 ar y diwygiadau penodol y mae Llywodraeth Cymru yn gofyn amdanynt i gymal 93 a'r hyn y byddent yn gallu ei wneud gyda'r pŵer gwneud rheoliadau sy'n cael ei geisio. Dylai'r Gweinidog hefyd roi diweddariad ar y trafodaethau perthnasol gyda Llywodraeth y DU.

## Dull deddfu Llywodraeth Cymru

**27.** Yn 2023, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynigion ar gyfer deddfwriaeth newydd yn ymwneud â thacsis a cherbydau hurio preifat, a cheisiodd farn ar y ddeddfwriaeth.[15] Mewn datganiad i'r Senedd ar 3 Hydref 2023, rhoddodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, Lee Waters AS, ddiweddariad ar bapur gwyn Llywodraeth Cymru ar ddiwygio'r drefn drwyddedu ar gyfer tacsis a cherbydau hurio preifat. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Senedd "nad yw'r ddeddfwriaeth hon yn debygol o gael ei chyflwyno i'r Senedd tan ddiwedd tymor y Senedd hon".[16]

**28.** Rydym yn ymwybodol bod Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr a Chomisiwn y Gyfraith yr Alban, yn eu hadroddiad ar y cyd yn 2022 ar Gerbydau Awtomeiddiedig, yn argymell y dylid cyflwyno Deddf Cerbydau Awtomeiddiedig newydd i reoleiddio cerbydau awtomeiddiedig ar ffyrdd neu fannau cyhoeddus eraill ym Mhrydain Fawr, ac y dylai llywodraethau Cymru, yr Alban a'r DU weithio

[15] Llywodraeth Cymru, Bil Tacsi a Cherbydau Hurio Preifat (Cymru): papur gwyn
[16] Y Cyfarfod Llawn, 3 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [238]

gyda'i gilydd i gyflwyno cynllun unffurf a fydd yn berthnasol ar draws Prydain Fawr.[17]

**29.** Rydym hefyd yn ymwybodol bod adroddiadau blynyddol Llywodraeth Cymru ar weithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith wedi tynnu sylw at waith Comisiwn y Gyfraith yn 2021-22 a 2022-23.[18]

**30.** Rydym yn cydnabod barn Llywodraeth Cymru y byddai gwneud darpariaeth drwy'r Biliau tacsi a/neu fysiau y bwriedir eu cyflwyno i'r Senedd yn anfoddhaol mewn perthynas â'r darpariaethau y ceisir caniatâd ar eu cyfer.

**Argymhelliad 2.** Byddem yn croesawu eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch pryd y penderfynodd ddefnyddio'r Bil ar gyfer y darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer a sut mae'r penderfyniad hwn yn ymwneud â'i deddfwriaeth arfaethedig ei hun neu'n effeithio ar ei deddfwriaeth arfaethedig ei hun, y cyfeiria ati ym mharagraff 23 o'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol.

**31.** Diben argymhelliad 2 yw cynorthwyo ein dealltwriaeth o ddull cyffredinol Llywodraeth Cymru o ddefnyddio Biliau'r DU i wneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig.

[17] Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr a Chomisiwn y Gyfraith yr Alban, Automated Vehicles: joint report, 25 Ionawr 2022, Argymhelliad 1

[18] Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar Weithredu Cynigion Comisiwn y Gyfraith, 2021-2022 (Gosodwyd ar 15 Chwefror 2022) a Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar Weithredu Cynigion Comisiwn y Gyfraith, 2022-2023 (Gosodwyd ar 15 Chwefror 2023)